



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Gymeriad y Dirwedd Canllawiau Cynllunio Atodol

Mae'r ddogfen hon yn ffurfio:

1. Canllawiau Cynllunio Atodol i Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (dyddiad terfyn 2021)

Mae'n atodol i Bolisi 8 'Nodweddion Arbennig' y Cynllun Datblygu Lleol.

2. [Canllawiau Cynllunio Atodol Dros Dro Cynllun Datblygu Lleol 2 – September 2020](#)



Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol

2. Cyflwyniad

3. Y Briff

4. Y Fethodoleg

4.1 Cefndir

4.2 Asesiad o'r Dirwedd gan ddefnyddio LANDMAP

4.3 Cymeriadau'r Dirwedd – adnabod Ardaloedd Nodwedd Tir a'u diffinio.

5. Data LANDMAP gwaelodlin

5.1 Sylwadau ar ddata gwaelodlin LANDMAP

5.2 Rôl gefnogol Meysydd Agwedd eraill LANDMAP wrth ddrafftio ANTau ar sail Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd

5.3 [Diweddariadau i feyseydd agwedd y Parc Cenedlaethol ar gyfer yr haen LANDMAP Gwledol a Synhwyrdd.](#)

6. Ardaloedd Nodwedd Tir

6.1 Esbonio'r broses o ddiffinio ANTau

6.2 Disgrifiad manwl o ANTau yn eu trefn, gan gynnwys nodweddion pwysig, tueddiadau dirnadwy yn y dirwedd a chanllawiau rheoli ar gyfer pob ANT

6.3 Nodweddion Arbennig Tirwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

6.4 Newid Mewn Hinsawdd a Chymeriad y Dirwedd

7. Ardaloedd Nodwedd Tir – Taflenni Data

8. Atodiadau

8.1 Manylion Unioni Ffiniau ar gyfer pob ANT a nodiadau ar y Perthnasoedd Pwysig rhwng y Meysydd Agwedd Naturiol

1. Crynodeb Gweithredol

Comisiynwyd yr Astudiaeth hon i Asesu Cymeriad y Dirwedd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn Hydref 2006.

Rheolwyd yr Astudiaeth gan Grŵp Llywio a oedd yn cynnwys swyddogion o Awdurdod y Parc Cenedlaethol a chyd-noddwyr yr Astudiaeth, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ([a adwaenir bellach fel Cyfoeth Naturiol Cymru](#)).

Darparwyd data gwaelodlin o'r agweddau a werthuswyd, a oedd yn destun arolwg yn Sir Benfro gan arbenigwyr yn defnyddio methodoleg LANDMAP, gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Adolygwyd y data hwn mewn manylder ac fe'i defnyddiwyd fel sylfaen gyffredin, gyda gwaith maes pellach i ategu ato, er mwyn dod o hyd i ardaloedd potensial o gymeriad tirwedd cyffredin – *Ardaloedd Nodwedd Tir* - a'u marcio. Mapiwyd y rhain ac fe'i disgrifiwyd, a chyflwynwyd y darganfyddiadau i'r Grŵp Llywio i'w hadolygu a'u mireinio trwy broses ailadroddus o drafod a diwygio, cyn cadarnhau eu henwau, eu maint daearyddol a lleoliad eu ffiniau yn derfynol.

Ar y cyfan, daethpwyd o hyd i 28 Ardal Nodwedd Tir o wahanol faint o fewn y Parc Cenedlaethol. Mewn llawer o achosion, nid yw ffin yr Ardal Nodwedd Tir tua'r tir yn cyfateb i ffin y Parc Cenedlaethol, sy'n golygu bod yr un cymeriad tir yn parhau i mewn i ardal weinyddol Sir Benfro, tu hwnt i'r Parc. Mae hyn yn awgrymu'r posibilrwydd fod ardaloedd sensitif o dirweddau gwerthfawr hefyd yn gorwedd tu allan i'r Parc Cenedlaethol a gerllaw.

Cynhyrchwyd Taflenni Data ar gyfer pob Ardal Nodwedd Tir. O fewn y taflenni hyn, ceir disgrifiadau manwl o'r prif briodoleddau, o dan benawdau Gweledol a Synhwyrdd, Tirwedd Ddaearegol, Cynefinoedd y Dirwedd a'r Dirwedd Hanesyddol a Diwylliannol. Mae ffotograffau cynrychiadol a dynnwyd o fewn pob Ardal Nodwedd Tir wedi eu cynnwys i ddangos ei hymddangosiad gyffredinol. Mae'r Astudiaeth hefyd wedi nodi rhinweddau pob Ardal Nodwedd Tir yn fanwl trwy adnabod prif nodweddion y dirwedd ymhob achos, a'u disgrifio. Hefyd, nodwyd unrhyw dueddiadau amlwg yng nghyflwr rheolaeth y dirwedd, fel newidiadau mewn ffiniau caeau o ganlyniad i arferion amaethyddol gwahanol, neu sefydlu planhigfeydd coedwigaeth ar dir agored. Yn olaf,

gosodwyd canllawiau rheoli ar gyfer pob Ardal Nodwedd Tir, yn nodi'r prif bwyntiau i'w hystyried yn y prosesau cynllunio defnydd tir a rheoli tir.

Disgrifiwyd nodweddion arbennig y dirwedd fel crynodeb hefyd, gan dynnu ar wybodaeth a ddaeth i law o ganlyniad i arolygon ymwelwyr a thrigolion a gynhaliwyd yn ystod 2006 ac o'r gwaith astudiaeth ddesg ac asesiad maes a wnaethpwyd ar gyfer yr Astudiaeth hon. Mae'r rhain yn bwysig wrth benderfynu ar amcanion polisïau cynllunio.

[Roedd y ddogfen hon yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac fe'i mabwysiadwyd fel canllawiau cynllunio atodol i Gynllun Datblygu Lleol 1. Yn y cyfamser wrth baratoi canllawiau cynllunio atodol wedi'u hadnewyddu o dan Gynllun Datblygu Lleol 2, bydd y canllawiau yn cael eu trosglwyddo at ddibenion rheoli datblygu o ddyddiad mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2 \(dyddiad\)](#)

2. Cyflwyniad

2.1 Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) yn Hydref 2006, gan weithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC). Drafftwyd y briff ar gyfer yr astudiaeth gan APCAP a CCGC, ar y cyd. Mireiniwyd y Fethodoleg ar gyfer yr Astudiaeth mewn cydweithrediad â Grŵp Llywio'r Prosiect, yn dilyn trafodaeth fanwl, ac fe'i cymeradwywyd gan y Grŵp.

2.2 Mae Methodoleg yr Astudiaeth yn tynnu ar ddata gwaelodlin a gasglwyd gan CCGC gan ddefnyddio methodoleg LANDMAP. Datblygwyd y fethodoleg hon gan CCGC ac fe'i defnyddiwyd ar draws Cymru i asesu cymeriad y dirwedd mewn ffordd systematig, i helpu ffurfio polisiau, datblygu penderfyniadau rheoli a gwerthuso polisiau rheoli tir.

2.3 Mae'r astudiaeth yn cwmpasu holl ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Ble mae'r Ardaloedd Nodwedd Tir a nodwyd ac a ddiffiniwyd yn ymestyn ar draws ffin y Parc Cenedlaethol i mewn i rannau cyfagos Sir Benfro, dangosir hyn gyda llinell doredig ar ffin y Parc Cenedlaethol.

Y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

2.4 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol 2. Mae'r fframwaith cynllunio newydd yn gofyn am sylfaen dystiolaeth gadarn ac un o'r materion pwysig wrth baratoi'r cynllun fydd y dirwedd, yn enwedig ei chymeriad, ei sensitifrwydd i ddatblygiad, a'i gallu i gofleidio newidiadau heb niweidio ei chymeriad.

2.5 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn darparu canllawiau mwy manwl ar y ffordd y mae polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol (yn enwedig Polisi 8 'Nodweddion Arbennig' a Pholisi 14 'Gwarchod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro') yn cael eu cymhwyso. Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol 1¹, ond fe'i mabwysiadwyd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 1¹ lle roed ganddo bwys sylweddol wrth benderfynu a ellir rhoi caiatad cynllunio i gynnig. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriadau, sy'n nodi sut yr ymgynghorwyd ar y canllawiau, ar gael i'w ddarllen ar wefan yr Awdurdod. Fel mesur dros dro

[mae'r canllaw wedi'i gyflwyno a bydd yn effithiol at ddibenion rheoli datblygu ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2.](#)

¹ Trwy benderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 22 Mehefin 2011

3. Briff yr Astudiaeth

- 3.1 Roedd Briff yr Astudiaeth yn gofyn am yr allbynnau penodol canlynol:
- darparu asesiad diduedd o gymeriad tirwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fel adnodd cymunedol ac adnodd ar gyfer ardal gyfan y Parc
 - gosod nodweddion arbennig y Parc, fel sy'n ofynnol gan ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar baratoi Cynllun Rheoli, gan ddiffinio'r hyn sy'n gwneud y Parc Cenedlaethol yn arbennig ac yn unigryw
 - darparu dealltwriaeth glir o dirwedd y Parc a phatrwm ei aneddiadau
 - adnabod ardaloedd nodwedd tir unigol o fewn y dirwedd a disgrifio'u prif nodweddion tirwedd
 - adnabod cymeriad aneddiadau, a'u disgrifio, gan gynnwys eu prif nodweddion a'u perthynas gyda gosodiad y dirwedd.

4. Methodoleg yr Astudiaeth

4.1 Cefndir

Pennwyd yr ardaloedd potensial ar gyfer yr 'Ardaloedd Nodwedd Tir' (ANTau) o wybodaeth a gafwyd o ddata Agwedd Gweledol a Synhwyrdd LANDMAP, sydd wedi ei sicrhau o ran ansawdd. Casglwyd y data hwn gan yr 'Arbenigwyr Agwedd' amrywiol ac fe'i ddarparwyd gan CCGC, yn unol â'r fethodoleg ofynnol a osodwyd gan CCGC ym Mehefin 2002². Roedd y broses bennu gychwynnol yn seiliedig ar dirffurf, gorchudd tir a phatrwm anheddiad yn bennaf.

4.2 Asesiad o'r Dirwedd gan LANDMAP

4.2.1 LANDMAP yw ymagwedd Cymru at Asesu'r Dirwedd. Mae'n adnodd sy'n seiliedig ar System Wybodaeth Ddaeryddol (GIS) ble mae gwybodaeth am y dirwedd yn cael ei chefnogi, ei threfnu a'i gwerthuso i mewn i gyfres ddata ofodol sy'n gyson yn genedlaethol. Mae LANDMAP yn rhaglen bartneriaeth rhwng [Cyfoeth Naturiol Cymru](#) a holl Awdurdodau Unedol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru. Datblygwyd LANDMAP i gynnig adnodd gwybodaeth sy'n rhoi ystyriaeth gyfartal i bob agwedd o'r dirwedd, i'w

ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau cynaliadwy ynghylch tirweddau.

4.2.2 Mae gwybodaeth LANDMAP yn hoelio sylw ar rannau unigol o'r dirwedd sydd fwyaf pwysig ac angen eu cynnal, ond mewn cyd-destun sydd hefyd yn gwerthuso'r dirwedd gyffredin yn ogystal â'r dirwedd drawiadol, er mwyn cynnal treftadaeth dirwedd amrywiol Cymru.

4.2.3 Mae craidd gwybodaeth LANDMAP yn cynnwys pum cyfres ddata sy'n gysylltiedig â gofod sy'n cofnodi gwybodaeth am ddylanwadau ffisegol, ecolegol, gweledol a synhwyrdd, hanesyddol a diwylliannol ar y dirwedd. Y defnydd o bob un o'r pum haenen o wybodaeth sy'n hybu penderfyniadau cynaliadwy ynghylch y dirwedd, oherwydd efallai bod yr hyn sy'n llai pwysig mewn un haenen yn hynod o bwysig mewn haenen arall. Trwy roi ystyriaeth gyfartal i bob un o'r pum haenen ni esgeulusir unrhyw agwedd o'r dirwedd. Mae arbenigwyr yn casglu Gwybodaeth LANDMAP mewn ffordd strwythuredig a thrwyadl a ddiffinnir gan fethodoleg LANDMAP (CCGC, 2001, diweddarwyd yn 2003). Yn fwy diweddar, mae gwybodaeth a dangosyddion cymdeithasol ac economaidd wedi eu cynnwys, ochr yn ochr â Gwybodaeth LANDMAP, i ddarparu gwybodaeth gyd-destunol i'n helpu i ddeall dylanwadau prosesau cymdeithasol ac economaidd wrth gyfarwyddo natur a graddau newidiadau yn y dirwedd.

4.2.4 Mae'r broses ar gyfer datblygu Gwybodaeth LANDMAP yr un peth ar gyfer pob un o'r Agweddau a werthuswyd. I ddechrau, mae ardal yr astudiaeth yn cael ei dosbarthu yn wahanol fathau o dirwedd sy'n cael eu diffinio fel ardaloedd daearyddol arwahanol; gelwir y rhain yn Feysydd Agwedd. Mae Meysydd Agwedd yn cael eu mapio ac mae 'Ffurflenni Casglu' yn cael eu llenwi trwy fwydo'r data a gasglwyd ar gyfer pob ardal a nodwyd. Mae'r wybodaeth ar y Ffurflenni Casglu yn dod yn bennaf o waith astudiaeth ddesg ac mae'n gallu cael ei mireinio gan asesiad maes; ond gellir ond ateb rhai cwestiynau'n iawn trwy asesiad maes. Cynhyrchir adroddiad technegol hefyd i esbonio barn ac unrhyw wyriadau o'r dull. Yna, dilynir gweithdrefn Sicrhau Ansawdd ar yr asesiad i sicrhau cysondeb ac i reoli ansawdd.

4.2.5 Yn *Nhabl 1, isod*, ceir crynodeb o ddatblygiad y broses o gasglu gwybodaeth LANDMAP a'i chymhwysiad

dilynol at gynllunio defnydd tir a datblygiad yr Astudiaeth hon ar yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd:

Tabl 1: LANDMAP – Crynodeb o'r Ymagwedd at Asesu'r Dirwedd a Chymeriadu'r Dirwedd

C A M A U C R A I D D	Cam 1 Cyfeiriadaeth
	○ Cynllunio'r prosiect
	Cam 2 Creu fframwaith gofodol (GIS) a chronfa ddata
	○ *Agweddau a Werthuswyd (Sicrhau Ansawdd)
	○ Y Dirwedd Ddaearegol
	○ Cynefinoedd y Dirwedd
	○ Gweledol a Synhwyrdd
	○ Y Dirwedd Hanesyddol
	○ Y Dirwedd Ddiwylliannol
	○ Dirnadaeth y Cyhoedd
	Cam 3 (Dewisol)
	○ Cymeriadu'r Dirwedd (Datblygu Ardaloedd Nodwedd Tir o Wybodaeth graidd LANDMAP uchod)
	○ Cynnyrch Eilaidd (e.e. Canllawiau Cynllunio Atodol, Canllawiau Dylunio, Strategaeth Dirwedd)

4.2.6 Y cam cyntaf wrth ddatblygu'r *Wybodaeth LANDMAP graidd* ar gyfer pob 'Agwedd a Werthuswyd', fel a ddangosir yn y tabl, oedd rhannu'r Parc Cenedlaethol yn 'Feysydd Agwedd' yr oedd modd eu hadnabod yn ddaearyddol o nodweddion a gwerthoedd cyffredin (a ddangosir fel polygonau mewn un haenen GIS). Gwnaethpwyd hyn gan ddefnyddio'r system ddosbarthu hierarchaidd ragnodol sy'n unigryw i'r fethodoleg ar gyfer pob Agwedd a Werthuswyd fel y Dirwedd Ddaearegol neu Gweledol a Synhwyrdd.

4.2.7 Yna, ar gyfer pob Maes Agwedd a nodwyd, fe ddatblygodd arbenigwyr cofnod ar gyfer yr arolwg a oedd yn disgrifio cymeriad, rhinweddau a nodweddion y dirwedd ac yn eu dogfennu. Cofnodwyd argymhellion rheoli a natur frys y rheolaeth ar gyfer pob Maes Agwedd hefyd, yn ychwanegol at werthusiad o'r gwerth, y cyflwr presennol a rhagfynegiad o dueddiadau. Ble'n berthnasol, aseswyd gallu'r Maes Agwedd i oddef newidiadau penodol.

4.2.8 Rheolir gwybodaeth LANDMAP trwy System Wybodaeth Ddaeryddol (GIS). Gellir gweld pob haenen ofodol yn annibynnol neu osod Agweddau eraill a Werthuswyd (neu gyfresi data cydnaws eraill) ar ben ei

² Methodoleg LANDMAP [CNC](#) a gyhoeddwyd yn 2002

gilydd, er mwyn ymholi'r data i gefnogi'r broses o ddadansoddi a phenderfynu.

- 4.2.9 Mae gan LANDMAP y priodoleddau pwysig canlynol:
- mae'n rhoi cyfle i ddefnyddwyr gyfuno gwybodaeth amgylcheddol, ddiwylliannol a threftadaeth gyda dangosyddion economaidd a chymdeithasol i helpu gwneud penderfyniadau cynaliadwy
 - mae'n darparu fframwaith gwybodaeth ar gyfer datblygu canllawiau a strategaethau tirwedd sy'n adlewyrchu'r ymdeimlad o le mewn ardal; ac yn sicrhau bod y nodweddion hynny sy'n diffinio'r ymdeimlad o le yma yn cael eu cydnabod a'u rheoli mewn ffordd gynaliadwy
 - mae'n cynnig gwaelodlin gwybodaeth gynhwysfawr ac integredig, y gellir asesu penderfyniadau a monitro newidiadau yn ei herbyn.
 - mae'n ymgorffori gwybodaeth gymdeithasol ac economaidd fel cyd-destun ar gyfer newidiadau i'r dirwedd
 - mae'n helpu penderfyniadau ar amrywiaeth o lefelau, o'r raddfa leol i'r raddfa genedlaethol
 - mae'n hwyluso tryloywder mewn penderfyniadau.

4.2.10 Ar ei ben ei hun, nid yw LANDMAP yn offeryn datblygu'n gynaliadwy ac nid yw'n cael ei ddefnyddio yn y ffordd hon. Ond, mae'n ffynhonnell wybodaeth bwysig a ddefnyddir fel sylfaen i gefnogi penderfyniadau yn ymwneud â rheoli tirwedd Cymru'n gynaliadwy.

4.3 Cymeriadu'r Dirwedd

4.3.1 Trwy archwilio dosbarthiadau Agwedd Gweledol a Synhwyrdd LANDMAP ar Lefel 1, yna lefel 2, e.e. iseldir tonnog, roedd yr Ardaloedd Nodwedd Tir drafft yn dechrau dod i'r amlwg. Yna, ychwanegwyd mwy o fanylder trwy archwilio data Lefel 3, e.e. *brithwaith o iseldir tonnog*. Mewn rhai ardaloedd, roedd angen archwilio i fanylder mwy Lefel 4, e.e. *brithwaith o dir fferm tonnog*, er mwyn diffinio ffiniau ANT gyda'r graddau o hyder sydd eu hangen.

4.3.2 Y cam nesaf oedd adnabod patrymau'r agweddau naturiol, a'u darlunio, wedi archwilio data Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd a data Agwedd y Dirwedd Ddaearegol. Mireiniwyd hyn ymhellach trwy osod data

Agweddau'r Dirwedd Hanesyddol a'r Dirwedd Ddiwylliannol dros yr wybodaeth uchod a gasglwyd.

4.3.3 Yna, cynhaliwyd arolwg maes wedi'i dargedu, er mwyn gwirio rhai o'r cydberthnasau rhwng Agweddau, a hefyd i wirio ffiniau cyn cadarnhau'r Ardaloedd Nodwedd Tir potensial. Yna, cyflwynwyd yr ANTau hyn a gynigiwyd i Grŵp Llywio'r Prosiect i gael trafodaeth fanwl ac i ddiwygio, yn ôl y gofyn, ac yna i'w cymeradwyo cyn symud ymlaen at gam nesaf y broses o asesu cymeriad y dirwedd.

4.3.4 Cam olaf y broses hon oedd archwilio'r ANT potensial y cytunwyd arnynt er mwyn creu Ardaloedd Nodwedd Tir wedi'u diffinio'n glir a oedd yn annibynnol ar ei gilydd. Eto, roedd arolwg maes wedi'i dargedu'n fodd o wirio barn (pa mor dda yr oedd pethau'n ffitio) a ffurfiwyd yn y broses werthuso ddesg. Cadwyd cofnod o unrhyw farn neu benderfyniad ynghylch materion trawsffiniol neu gynhennus, er budd tryloywder ac atebolrwydd.

4.3.5 O'r broses hon, roedd modd adnabod 'nodweddion arbennig' y Parc Cenedlaethol, yn enwedig fel a fynegwyd trwy adnabod *prif nodweddion* unrhyw ANT benodol. Mae ffotograffau cefnogol priodol wedi eu cynnwys er mwyn dangos y pwyntiau hyn. Un o allbynnau hanfodol y broses hon oedd cymryd sylw o'r tueddiadau dirnadwy yn y dirwedd a nodwyd yn amlinellol yn nata Agwedd Gweledol a Synhwyrdd LANDMAP ac mewn gwiriadau maes, ac i archwilio goblygiadau tirwedd a gweledol y tueddiadau hyn, er mwyn gwneud argymhellion rheoli priodol ar gyfer pob ANT. Mae llawer o'r rhain yn ymwneud ag elfennau neu nodweddion o'r dirwedd nad ydynt yn ddarostyngedig i'r broses o gynllunio datblygiad nac yn ddarostyngedig i reoli datblygiad.

4.3.6 Fe fydd y broses o gymeriadu'r dirwedd yn cael ei defnyddio i fwydo gwerthusiad aneddiadau penodol a adnabuwyd yn y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys eu prif nodweddion, eu perthynas gyda gosodiad y dirwedd, ac i helpu penderfynu ar eu gallu ar gyfer datblygiadau preswyl a chyflogaeth a'u sensitifrwyd i'r elfennau hyn. Fel rhan bwysig o'r broses hon, fe fydd arolwg ychwanegol ar gyfer aneddiadau a'u hymylon, hyd at LANDMAP Lefel 4, gan ddefnyddio data'r Agwedd Gweledol a Synhwyrdd, yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth bwysig ar gyfer yr astudiaeth ddilynol o allu'r aneddiadau, sy'n destun astudiaeth ar wahân.

5. Data LANDMAP gwaelodlin

5.1 Darparwyd y data LANDMAP gwaelodlin dros gyfnod o fisoedd. Mae'r data LANDMAP a gesglir ar gyfer pob Agwedd yn ddarostyngedig i broses lem o Sicrhau Ansawdd, a gyflwynwyd gan CCGC ar gyfer y broses o gasglu data gan ddefnyddio'r fethodoleg ddiwygiedig sydd mewn grym ers Mehefin 2003.

5.2 Oherwydd natur Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol maen nhw'n dueddol o fod yn llawer mwy o ran maint ac yn llai manwl yn eu disgrifiadau na'r rheiny a ddiffinnir ar gyfer y pedair Agwedd arall a werthuswyd. Felly, mae rôl nodweddion y Dirwedd Ddiwylliannol yn dueddol o fod yn llai hanfodol na'r Agweddau eraill yn union ddiffiniad ffiniau ACT, yn enwedig wrth ystyried dilyniant angenrheidiol y broses o drososod data wedi'i fapio o'r Agweddau a werthuswyd (*gweler adran 6.1, isod*).

5.3 Rhyddhawyd diweddariadau i ardaloedd agwedd y Parc Cenedlaethol ar gyfer yr haen LANDMAP Gweledol a Synhwyrdd ym mis Mawrth 2015 gydag argymhellion ar gyfer newidiadau i'r haen tirwedd Cynefinoedd. Mae'r newidiadau a argymhellir yn ganlyniad i ehangu ardaloedd trefol a newidiadau i orchudd cynefinoedd, megis cynnydd mewn coetir a phrysgwydd.

Crynodeb o'r newidiadau a'r dylanwadau yn Sir Benfro fel y'u nodwyd yn yr Adroddiad Monitro³ yw:

"Ehangu Aneddiadau:

Mae'r rhan fwyaf o'r trefi a'r pentrefi mwy wedi cael rhywfaint o ehangu a /neu ddatblygiad mewnlenwi, datblygu tai yn bennaf."

"Aberdaugleddau:

Mae newidiadau i'r cyfadeiladau diwydiannol ar raddfa fawr, gan gynnwys dymchwel, ailadeiladu, glanfeydd newydd, tyrbinau gwynt a chynnydd mewn traffig porthladdoedd i gyd wedi creu newid sylweddol o amgylch yr Hafan."

³ Sir Benfro: Canfod Newid LANDMAP: Adroddiad Monitro'r Agwedd Weledol a Synhwyrdd Terfynol: Mawrth 2015

“Lwnhelyg”

Mae ehangu datblygiadau diwydiannol a datblygiadau eraill, ynghyd â mwy o weithgaredd yn ymwneud â'r maes awyr a maes y sioe yn golygu y bu newidiadau sylweddol yn yr ardal hon."

“Cynlluniau ffyrdd newydd:

Mae ffordd osgoi Robeston Wathen (A40) yn mynd trwy gefn gwlad a arferai fod yn agored ac wedi newid golygfeydd, llonyddwch a gweithgaredd yr ardaloedd agwedd y mae'n mynd drwyddynt."

“Tyrbinau gwynt:

Er nad oes unrhyw ffermydd gwynt mawr yn Sir Benfro, bu nifer o grwpiau sengl a bach o dyrbinau (a mwy yn mynd trwy'r broses gynllunio). Mae'r rhai o amgylch Aberdaugleddau yn ychwanegu at 'annibendod' gweledol yr ardal. Mae'r rhai ar dir fferm y llwyfandir canolog yn dechrau cael effeithiau cronus.

Mae araeau solar hefyd yn cael eu hadeiladu yn Ne Sir Benfro."

“Chwareli:

Mae nifer o chwareli wedi ehangu yn ne'r sir, yn enwedig o amgylch Johnston a ger Tredeml. Mae hyn wedi dod â chynnydd mewn traffig a sŵn a llwch ynghyd ag effeithiau gweledol."

“Datblygiadau twristiaeth lleol mawr:

Mae datblygiadau diweddar yn Bluestone a Folly Farm wedi ychwanegu at y gweithgaredd yn ne ddwyrain y sir, yn ogystal â chael effeithiau gweledol sylweddol."

“Erydiad arfordirol:

Mae effeithiau cronol stormydd y gaeaf a thywydd eithafol parhaus yn debygol o barhau. Fodd bynnag, ni chanfuwyd unrhyw newidiadau tirwedd sylweddol yn ymwneud ag amddiffynfeydd môr ac erydiad."

“Mae Astudiaeth Morluniau Sir Benfro yn nodi rhai grymoedd dros newid a newidiadau diweddar sy'n berthnasol i newid LANDMAP."

Ni ystyrir bod y newidiadau a'r diweddariadau hyn, er eu bod yn bwysig wrth ystyried cynigion datblygu unigol ac asesiadau safle-benodol, yn cyflwyno newid sylweddol ar

raddfa'r dirwedd mewn perthynas â'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro LANDMAP am newid sylweddol.

6. Ardaloedd Nodwedd Tir

Ymagwedd yr Astudiaeth at Adnabod ANT

6.1 Mae'r fethodoleg LANDMAP ar gyfer cymeriadu'r dirwedd (dyddiedig 10 Mehefin 2002) yn gofyn i'r aseswr drosod y data Agwedd a fapiwyd yn y drefn ganlynol: Agwedd Gweledol a Synhwyrdd (i adnabod ANTAu potensial), Y Dirwedd Ddaearegol, Cynefinoedd y Dirwedd, Y Dirwedd Hanesyddol a'r Dirwedd Ddiwylliannol. Yn amlwg, roedd argaeledd amserol yr Agwedd Gweledol a Synhwyrdd a data Chynefinoedd y Dirwedd yn golygu bod modd llunio diffiniadau'r ACTau, a gyflwynwyd i Grŵp Llywio'r Prosiect ar ffurf ddrafft ar ddau gam yn y prosiect. Felly, mae'r rhain wedi bod yn ddarostyngedig i sylwadau gan swyddogion ac aelodau o fewn APCAP a sylwadau arbenigol gan Gydlynnydd LANDMAP CCGC.

Ardaloedd Nodwedd Tir yn y Parc Cenedlaethol

6.2.1 Mae Astudiaeth yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd wedi adnabod a mapio 28 Ardal Nodwedd Tirwedd benodol o fewn y Parc Cenedlaethol.

6.2.2 Mae diffinio ffiniau yn elfen allweddol o'r asesiad. Disgrifir y cyfiawnhad ar gyfer diffinio ffiniau ar gyfer pob ANT mewn perthynas â ffin y Parc Cenedlaethol a'r ANTAu cyfagos, gyda chyfeiriad at ffiniau'r Meysydd Agwedd priodol a werthuswyd. Mae'r cyfiawnhad manwl ar gyfer diffinio ffin pob ANT yn cael ei nodi yn *Atodiad 8.2, q.v.*, gyda nodiadau ar berthnasoedd allweddol rhwng data penodol yr Agweddau Gweledol a Synhwyrdd a 'naturiol' hefyd wedi eu cynnwys. Ar gyfer pob ANT, mae'r Maes (Meysydd) Agwedd Gweledol a Synhwyrdd a adnabuwyd o fewn yr ardal leol yn fan cychwyn sylfaenol wrth adnabod a chyfiawnhau'r ffiniau ac esblygiad yr ANT derfynol.

6.2.3 Disgrifir pob un o'r ANTAu mewn telerau cyffredinol isod. Hefyd, er mwyn sicrhau bod modd ei defnyddio a'i dehongli'n hwylus, mae'r wybodaeth ynghylch tirwedd pob ANT a ddiffiniwyd wedi cael ei chwtogi yn daflen ddata dwy dudalen. Mae'r taflenni data hyn i'w gweld yn *adran 6.3, isod*.

ANT1– Arfordir Setledig Saundersfoot

6.2.4 Yr ANT hon yw adran fwyaf dwyreiniol y Parc Cenedlaethol, ac mae'n rhedeg tua'r gogledd o gyrion gogleddol Dinbych-y-pysgod, trwy Saundersfoot, yna i'r gogledd ddwyrain trwy Wiseman's Bridge, Pleasant Valley, Summerhill a Llanrhath i ffin ddwyreiniol y Parc Cenedlaethol. Er bod yr anheddiad yn eithaf dwys, nid yw'r ffurf adeiledig yn ymwithiol, yn gyffredinol, oherwydd y tiffurf tonnog gyda dyffrynnoedd afon bach yn rhedeg at yr arfordir, a maint y coetir a'r tir amaethyddol ymwithiol.

ANT2 – Dinbych-y-pysgod

6.2.5 Mae ANT Dinbych-y-pysgod yn cynnwys tref Dinbych-y-pysgod a hefyd ardaloedd arfordirol cysylltiedig The Burrows, sy'n ymestyn i'r de o'r dref at Bwynt Giltar, law yn llaw gyda rhan o ddyffryn isaf Ritec. Mae cymeriad rhannau allanol y dref yn gwrth-ddweud atyniadau'r bensaerniaeth o ansawdd uchel a'r awyrgylch nodedig yng nghraidd yr hen dref a'i waliau tref, yr harbwr traddodiadol a'r castell.

ANT3 – Ynys Bŷr

6.2.6 Diffinnir yr ANT hon gan flaendraeth yr ynys sydd i'r de ddwyrain o Ddinbych-y-pysgod, oddi ar Bwynt Giltar, ac mae'n dilyn ffin y Parc Cenedlaethol yn llwyr. Mae hanes mynachaid a gwerth diwylliannol unigryw yr ynys setledig sydd wedi'i thrin ers blynyddoedd, ynghyd â'r ffaith ei bod ar wahân yn ffisegol, yn cyfiawnhau ANT ar wahân.

ANT4 – Maenorbŷr/Freshwater East

6.2.7 Dyma ANT arfordirol fawr sy'n rhedeg tua'r dwyrain o Gwningar Ystafbwl mor bell â chyrion deheuol Penalun, gan gynnwys pentrefi arfordirol Maenorbŷr a Freshwater East. Mae yna gyferbyniadau amlwg yng nghymeriad yr aneddiadau yma, yn amrywio o briodoleddau hanesyddol eithriadol y dirwedd faenorol o amgylch Maenorbŷr a phentref Llandyfái, i ddatblygiadau modern sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn Freshwater East. Mae'r system llain-gaeau hanesyddol y naill ochr i The Ridgeway rhwng Llandyfái a St. Florence yn elfennau nodedig sydd wedi goroesi o reolaeth amaethyddol yn y gorffennol.

ANT5 – Ystafbwl

6.2.8 Tynnwyd ffin ANT Ystafbwl yn dynn o amgylch aber a dyffrynnoedd cymhleth Boshaston ac Ystafbwl, Cwningar Ystafbwl, a Broad Haven a Bae Barafundle. Mae yna dirweddau sy'n cyferbynnu'n gryf yma, o fewn ardal fach o

dir, yn amrywio o ddyffrynnoedd afon cysgodol agos gyda llynnoedd a phyllau artiffisial i gopa clogwyni noeth a thwyni tywod a baeau eang gyda thraethau tywodlyd.

ANT6 – Meysydd Castellmartin/Merrion

6.2.9 Meysydd tanio'r Weinyddiaeth Amddiffyn yw'r rhan fwyaf o'r ANT arfordirol helaeth hon sy'n rhedeg o eithafion deheuol y traeth ym Mae Freshwater i'r de at Linney Head, ac yna tua'r dwyrain i Benrhyn Sain Gofan, ac yna i'r gogledd ddwyrain i Gwningar Ystafbwl. Mae'r ardal hon hefyd yn cwmpasu pentrefi bach Castellmartin, Warren a Merrion. Mae'r defnydd milwrol hirsefydlog wedi creu cymeriad unigryw ac, yn eironig, oherwydd y gweithgareddau tanio byw, wedi gwarchod cryn dipyn o nodweddion hanesyddol ac archeolegol y dirwedd. Mae'r eglwysi blaenllaw ar hyd y cribyn rhwng St. Petrox a Chastellmartin yn dal i fod yn elfennau pwysig o'r dirwedd, er gwaethaf seilwaith y maes milwrol sy'n ymwithiol mewn rhai ardaloedd.

ANT7 – Penrhyn Angle

6.2.10 Mae ANT Penrhyn Angle yn cynnwys penrhyn Angle ei hun ond hefyd yn cynnwys Bae Angle a'r tir i'r dwyrain mor bell â ffin y Parc Cenedlaethol ger purfa oled Texaco Rhoscrowther, ac i'r de ddwyrain mor bell â thwyni tywod Kilpaison a phen gogleddol y traeth yn Freshwater West. Mae gwerth hanesyddol eithriadol pentref Angle fel enghraifft dda o bentref Ganoloesol wedi ei gynllunio o fewn hen system gaeau sydd wedi goroesi, a'i bensaerniaeth ddiweddarach nodedig, yn atgyfnerthu'r ymdeimlad cryf o le ar y pentir hwn, gyda'i olygfeydd helaeth ar hyd yr arfordir ac ar draws aber Aberdaugleddau. Mae yna gysylltiad hir gydag amddiffyniad angorfa Aberdaugleddau, fel y gwelir o'r caerau yn Chapel Bay ac Ynys Thorn.

ANT8 – Freshwater West/Twyni Brownslade

6.2.11 Diffiniwyd yr ANT hon mewn ymateb i awgrym penodol gan y Grŵp Llywio. Mae'n cwmpasu'r systemau twyni tywod helaeth tua'r tir yn Nhwyni Kilpaison, Twyni Broomhill, Twyni Gupton, Twyni Brownslade a Thwyni Linney, law yn llaw gyda gwlypdiroedd dyffryn eang Cors Castellmartin, sydd oll yn gefndir i ehangder dramatig y traeth tywodlyd ym mae Freshwater West. Mae ganddi nodweddion sy'n cyferbynnu'n amlwg ac elfen gryf o'i chymeriad yw golygfeydd a sain y môr ar hyd y traeth tywodlyd mawr. Mae'r systemau twyni tywod wrth gefn y traeth yn rhai o'r systemau twyni mwyaf helaeth yn y Parc

Cenedlaethol, ac maent yn cyferbynnu'n gryf gyda dyffryn corsiog isel Cors Castellmartin yn y gefnro gerllaw.

ANT9 – Penrhyn Marloes

6.2.12 Ffiniau'r penrhyn eang hwn yw'r arfordir agored i'r gogledd, y gorllewin a'r de a glannau moryd Aberdaugleddau i'r de ddwyrain. Mae wedi cadw ymdeimlad o bellenigrwydd - darn o dir wedi ei dominyddu gan ddefnydd amaethyddol gyda phatrwm darniog o aneddiadau, ond hanes hir o anheddiad, yn enwedig nodweddion amddiffynnol - o'r cyfnod cynhanes tan yr Ail Ryfel Byd. Mae morlin y clogwyni yn bresenoldeb ailadroddus cryf gyda golygfeydd o ynysoedd Sgomer a Sgogwm a goleudy Penrhyn y Santes Ann yn bwyntiau ffocws pwysig, yn ogystal â golygfeydd panoramig i'r gogledd ar draws eangderau Bae Sain Ffraid.

ANT10 – Sgomer a Sgogwm

6.2.13 Mae'r ynysoedd hyn sy'n gorwedd oddi ar eithafion gorllewinol penrhyn Marloes yn ANT ar wahân, a ddiffiniwyd gan ffin y Parc Cenedlaethol i ddechrau. Mae'r ynysoedd hyn wedi cael eu gwerthfawrogi ers meitin am eu hanes naturiol, gyda gwarchodfeydd adar ar yr ynysoedd, a dynodwyd y môr o amgylch yr ynysoedd yn Warchodfa Natur Forol, yr unig ddynodiad o'r fath yng Nghymru ar hyn o bryd.

ANT11 – Herbrandston

6.2.14 Gorwedd yr ANT fach hon rhwng dyffryn afon endoredig gul Sandy Haven Pill, sy'n rhedeg tua'r de o Gastell Walwyn i ymuno ag aber y Daugleddau a ffin y Parc Cenedlaethol i'r gorllewin o Aberdaugleddau. Pennwyd yr ardal hon, ar hyd cyrion hen burfa Herbrandston (sydd erbyn hyn yn cael ei datblygu fel terfynfa Nwy Naturiol Hylif) fel ANT ar wahân oherwydd ei safle unigryw mewn perthynas â'r adeiladau LNG cyfagos. Datblygwyd adeiladau petrogemegol diwydiannol yma cyn dynodiad y Parc Cenedlaethol ac ers y dynodiad. Mae'r safle hwn, law yn llaw gyda'i gymeriad digon agored a graddfa'r datblygiadau diwydiannol gerllaw, yn golygu bod cymeriad y dirwedd yn cael ei osod i raddau helaeth gan nodweddion diwydiannol sydd naill ai tu allan i'r Parc neu o fewn y Parc, ond gyda chymeriad tir llwyd o dan ailddatblygiad diwydiannol diweddar. I bob pwrpas, mae'r ANT hon yn gweithredu fel clustogfa, gan wahanu i raddau rhag ardaloedd o'r Parc Cenedlaethol sydd heb eu heffeithio i'r gorllewin, ac, fel y cyfryw, mae angen ei hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniad ynghylch rheoli neu ddatblygu tir a allai effeithio ar y dirwedd.

ANT12 – Bae Sain Ffraid

6.2.15 Mae'r ANT arfordirol hon, sy'n helaeth iawn, yn rhedeg o ffin ddwyreiniol Cwm Solfach yn y gogledd orllewin o amgylch arch sylweddol Bae Sain Ffraid, gan gofleidio Niwglwl, Broad Haven ac ymlaen at Little Haven yn y De. Mae gan y pentrefi hyn gyfleusterau twristiaeth pwysig ac mae ehangder y bae yn caniatáu iddynt gael eu cydweddu i'r olygfa heb fawr o ymyrraeth, ac eithrio mewn ardaloedd lleol. Mae'r anheddiad yn ddarniog yn y gefnro amaethyddol ac, yn gymharol, heb ei ddifetha, gyda banciau perthi traddodiadol yn marcio mwyafrif ffiniau'r caeau.

ANT13 – Brandy Brook

6.2.16 Dyma ANT fewndirol fach sy'n cynnwys cyfres o ddyffrynnoedd afon bach wedi'u rhicio i lwyfandir arfordirol yr iseldir, ydd heb unrhyw gysylltiad ffisegol at yr arfordir. Mae'n gorwedd i'r gogledd ddwyrain o bentref Roch, i'r dwyrain o Niwglwl. Mae adran de orllewinol yr ANT hon yn ffurfio rhan bwysig o osodiad Castell Roch, Adeilad Rhestredig Gradd 1. Mae'r anheddiad yn ddarniog, ac mae'n ardal amaethyddol yn bennaf, ond mae yma hanes hir o anheddiad ac mae'n nodedig am yr elfennau o gynhanes sydd wedi goroesi.

ANT14 – Cwm Solfach

6.2.17 Seiliwyd yr ANT fechan hon yn gadarn ar ffurf ffisegol Cwm Solfach sydd wedi ei rhicio i'r llwyfandir arfordirol ac yn rhedeg i'r môr ar arfordir gogleddol Bae Sain Ffraid. Erbyn hyn, mae Solfach, gyda'i harbwr traddodiadol a'r bensaerniaeth nodedig leol, yn boblogaidd ymhlith morwyr ac mae hyn yn arwydd o'i phwysigrwydd yn y gorffennol fel porth masnachol â chysylltiad at y diwydiant calch lleol, a'r fasnach arfordirol gysylltiedig.

ANT15 – Comin Dowrog a Chomin Tretio

6.1.18 Dyma ddarn mawr o lwyfandir mewndirol sy'n gorwedd i'r gogledd ddwyrain o ddinas Tyddewi. Yn ei hanfod, mae'n agored ac yn cynnwys ardaloedd mawr o dir mynediad agored ar Gomin Dowrog a Thretio, sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r ardaloedd isel hyn o rostir, sy'n gymharol wastad, yn brin o fewn y Parc Cenedlaethol ac yn rhan o bentir Tyddewi gyda'i bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol anferth o fewn Cymru a'r eglwys Gristnogol, ac mae gan yr ardal gysylltiadau cryf at y ddinas. Mae yma hanes hir o anheddiad a phensaerniaeth gynhenid leol nodedig.

ANT16 – Carn Llidi

6.2.19 Mae'r brynau hynod o nodedig hyn, gyda'u silwét syth a charegog, yn weledol am bellter sylweddol ac yn sail i'r ANT hon sy'n ucheldir, i raddau helaeth, ac yn rhedeg i'r dwyrain ar hyd yr arfordir o Benmaendewi. Mae yna ardal helaeth o dir mynediad agored sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae gan y dirwedd hon elfen gynhanesyddol hynod o bwysig, gyda llawer o nodweddion ac ardaloedd heb eu goresgyn yn gadarn gan ddefnydd tir modern. Dynodwyd llawer o ucheldir ANT Carn Llidi a Phenmaendewi a'i gefnro fel tir mynediad agored⁴.

ANT17 – Tyddewi

6.2.20 Tynnwyd yr ANT hon yn dynn o amgylch ardal drefol dinas Tyddewi, gydag ymestyniad i'r de orllewin i lawr dyffryn yr Afon Alun, Merry Vale, cyswllt hirsefydlog o'r ddinas i'r môr a dolen bwysig ar gyfer traffig masnachol ar anterth y gwaith o gynhyrchu calch yn yr ardal. Mae'r cyfoeth o adeiladau a nodweddion Canoloesol o fewn clos yr eglwys gadeiriol yn nodweddion diffiniol pwysig ac yn adlewyrchu pwysigrwydd rhyngwladol Tyddewi yn yr eglwys Gristnogol.

ANT18 – Pentir Tyddewi

6.2.21 Dyma ANT fawr iawn sy'n meddiannu llawer o bentir y llwyfandir arfordirol i'r gorllewin o ddinas Tyddewi, ac yn ymestyn ar hyd yr arfordir i'r dwyrain o Dyddewi i gwrdd â chwam Solfach. Mae gan y pentir cyfan gysylltiadau gweledol, hanesyddol a diwylliannol cryf gyda dinas Tyddewi, y mae'r ANT hon bron yn ei amgylchynu. Mae darnau mawr o'r morlin hwn yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac mae gan y rhan fwyaf o'r llain arfordirol hon fynediad digyfyng i'r cyhoedd.

ANT19 – Ynys Dewi

6.2.22 Mae ANT Ynys Dewi o fewn pellter byr i'r gorllewin o ANT Pentir Tyddewi, ar draws Swnt Dewi, a diffinnir ei ffin gan flaendraeth sy'n garegog ac yn ddanheddus i raddau helaeth. Er bod gan ran gogledd ddwyreiniol yr ynys gaeau caeedig, mae'r rhan helaethaf yn weundir agored, prysg a glaswelltir. Ni ddatblygwyd llawer ar yr ynys ac mae'n cael ei rheoli fel gwarchodfa adar.

⁴ *Countryside and Rights of Way Act, 2000*

ANT20- Trefin

6.2.23 Dyma ANT arfordirol fawr sy'n rhedeg tua'r de o fryn caregog amlwg Garn Fawr tua'r de orllewin at ben dwyreiniol bryniau Carn Llidi, yng Ngharn Penberi. Mae'r clogwyni caregog bron yn ddi-dor gyda childraethau cysgodol ac ynysigau hwnt ac yma, fel Abereiddi, Porthgain ac Abercastell. Mae yna hanes hir i'r diwydiant echdynnu ar hyd y darn hwn o arfordir, ac mae wedi dylanwadu ar leoliad a ffurf adeiledig y pentrefi arfordirol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol dirddaliadau yn yr ANT hon.

ANT21 – Pen Caer/Pen Strwmbwl

6.2.24 Mae'r ANT arfordirol hon yn gorwedd i'r gogledd orllewin o Wdig ac Abergwaun ac mae'n rhedeg o Bwynt Crincoed o amgylch Pen Caer/Pen Strwmbwl ac yna tua'r de tuag at fryn caregog amlwg Garn Fawr gyda'i Fryngaer Oes Haearn blaenllaw. Mae'n ardal helaeth o dir fferm fugeiliol yn bennaf, wedi'i gau gan fanciau perthi cae traddodiadol, gyda phatrwm anheddiad gwasgarog - ambell bentref, ffermydd a phentrefannau gwasgarog ac ymdeimlad o bellnigrwydd. Mae goleudy Pen Strwmbwl yn marcio terfyn y pentir caregog agored.

ANT22 – Mynydd Carningli

6.2.25 Yr ucheldir mawr hwn yw ymestyniad gorllewinol Mynyddoedd y Preseli ac mae'n rhannu nifer o'i nodweddion gweledol, ond mae'n haeddu cael ei ddynodi'n ACT ynddo'i hun, gyda'i gopa caregog nodedig a'i sefyllfa arglwyddiaethol uwchben yr arfordir. Mae copa Mynydd Carningli yn dirnod trawiadol, yn enwedig o'i weld o gyfeiriad Dinas Cross, Trefdraeth, yr ucheldir uwchben yr arfordir rhwng Nanhyfer a Threwyddel a phrif heol yr A487 sy'n rhedeg tua'r gogledd tuag at Aberteifi. Mae'r copa caregog yn un o gyfoeth o safleoedd o gynhanes yn yr ardal hon, yn ogystal â meini hirion a nodweddion eraill.

ANT23 – Trefdraeth

6.2.26 Mae'r ANT fechan hon yn seiliedig ar ardal adeiledig anheddiad deniadol a phoblogaidd Trefdraeth gan fwyaf, ond mae hefyd yn bongamu aber yr Afon Nyfer i gynnwys y tir ar ochr ddwyreiniol Traeth Trefdraeth. Dyma anheddiad sydd â hanes hir ac mae'n enghraifft wych arall yn y Parc Cenedlaethol o bentref Canoloesol wedi'i gynllunio, gyda nifer o nodweddion nodweddiadol wedi goroesi.

ANT24 – Penrhyn Dinas

6.2.27 Mae'r ANT arfordirol fawr hon yn diffinio'r rhannau o'r arfordir rhwng Trefdraeth yn y gogledd ddwyrain a chyrrion allanol Abergwaun yn y de orllewin, gyda Phenrhyn Dinas yn y canol. Mae Bae Trefdraeth a Bae Abergwaun i'r dwyrain a'r gorllewin yn ôl eu trefn. Mae'r aneddiadau yn yr ardal amaethyddol fewndirol dipyn yn fwy dwys nag mewn ardaloedd cymharol i'r gogledd o Drefdraeth, gyda phentref Dinas Cross wrth ei chalon. Mae Penrhyn Dinas yn dirnod blaenllaw ar y morlin, gydag arwynebedd sylweddol o dir yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

ANT25 – Penrhyn Cemaes

6.2.28 Dyma ANT fawr iawn sydd ar eithafion gogleddol y Parc Cenedlaethol. Mae'n ymestyn o Benrhyn Cemaes, i ogledd orllewin Aberteifi ac ar ei i phen gogleddol tua'r de orllewin at bwynt sydd i'r gogledd ddwyrain o Draeth Trefdraeth. Dyma ardal sydd â hanes hir o anheddiad, ac erbyn hyn mae yma boblogaeth ddarniog gyda ffermydd gwasgarog, pentrefannau ac ambell bentref bach gydag amaethyddiaeth yn dominyddu'r olygfa. Mae banciau perthi ffin cae traddodiadol yn nodwedd amlwg o'r dirwedd.

ANT26 – Cwm Gwaun/Afon Nyfer

6.2.29 Y system dyffryn coediog isel helaeth hon sy'n perthyn i'r ddwy afon sy'n rhedeg tua'r tir o Abergwaun a Threfdraeth - yr Afon Gwaun a'r Afon Nyfer - yw'r nodwedd sy'n rhannu dwy ardal ucheldir debyg ond nodedig Mynydd Preseli a Mynydd Carningli. Mae ei thirwedd, sy'n ddyffryn gul a chaeedig ac eithaf clos, yn gyferbyniaeth lwyr i'r bryniau noeth a charegog gerllaw. Mae yna olygfeydd aml allan at y bryniau, ac mae eu ffurf a'u presenoldeb yn pwysleisio natur endoredig dyffryn yr afon Gwaun yn benodol. Mae yna hanes hir o anheddiad yn yr ardal ffermio draddodiadol hon sydd, i raddau helaeth, yn ardal Gymraeg ei hiaith.

ANT27 – Mynydd Preseli

6.2.30 Mae cadwyn o fryniau Mynydd Preseli yn nodwedd dirffurf fawr sy'n hynod o nodedig ac mae'n amlwg o lawer o fannau yn y Parc Cenedlaethol, ac o sawl ardal yn Sir Benfro sydd tu allan i'r Parc. Dyma'r ardal fwyaf o dirwedd ucheldir yn y Parc Cenedlaethol, ac mae llawer o'r ANT fewndirol fawr hon yn codi o tua 100 metr i ymhell y tu hwnt i 300 metr

uwchben y Datwm Ordans. Dyma dirwedd sydd â hanes gyfoethog o anheddiad dynol gyda llawer o nodweddion o gynhanes wedi goroesi - bryngaerau, caedleoedd, tracffyrdd, carneddau, safleoedd defodol a gwrthgloddiau. Er bod planhigfeydd coedwigaeth gonifferaidd o'r 20^{fed} Ganrif wedi gorchuddio rhai ardaloedd o lechweddau uwch, nodweddion blaenllaw Mynydd Preseli yw'r cribynau bryniog agored gydag ambell frigiad caregog enfawr ar y copa, sy'n torri ar draws y gorwel.

ANT28 - Daugleddau

6.2.31 Mae'r ANT nodedig hon yn unigryw yng nghyd-destun y Parc Cenedlaethol yn y ffaith ei bod wedi'i datgysylltu'n ffisegol oddi wrth brif gorff y Parc. Y nodwedd arglwyddiaethol yw moryd afon lanwol hollbresennol afonydd dwyreiniol a gorllewinol y Cleddau law yn llaw gyda rhannau ategol Afonydd Cairew a Cresswell. Er nad ydynt wedi eu cau i mewn gan dir uchel, mae yna synnwyr cyffredinol o gysgod, ardal lonydd heb unrhyw olygfa o'r môr ond gyda system afon sy'n ymddangos yn llanwol. Mae yna hanes hir o anheddiad a diwydiant, gan gynnwys cloddio am lo ac mae'r felin lanwol yng Nghairew yn unigryw ym Mhrydain. Mae yna sawl ystâd â thir yn yr ardal sy'n rhoi cymeriad gwahanol iawn i'r ANT o gymharu â mwyafrif y Parc Cenedlaethol ac mae Castell Cairew yn atgof mawreddog o'r dylanwad hwn.

Taflenni Data'r Ardaloedd Nodwedd Tir

6.2.32 Mae Taflenni Data'r ANT wedi eu cynllunio fel bod modd cydweddu prif briodoleddau pob un o'r ANT a ddiffiniwyd o fewn y Parc Cenedlaethol yn hwylus.

6.2.33 Dyma brif elfennau *tudalen gyntaf* y Taflenni Data:

- **Map Mewnol** – yn yr adran chwith ar y brig, sy'n gosod lleoliad yr ANT yng nghyd-destun y Parc Cenedlaethol
- **Map Manwl** - yn yr adran ar y dde ar y chwith, yn dangos maint yr ANT a ddangosir. *Dangosir marciau ffin pob un o'r ANTAu fel llinell ddu solid, ac eithrio ble mae ffin yr ANT wedi'i amffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol - dangosir hyn fel llinell ddu a melyn doredig.*

- **Crynodeb o Nodweddion yr ANT** – mae'r geiriau'n rhoi disgrifiad cryno o leoliad, cyd-destun a nodweddion ffisegol yr ANT, ynghyd â chrynodeb o'r prif nodweddion a nodwyd ym mhob un o'r pum disgrifiad data gwaelodlin ar gyfer yr Agweddau LANDMAP a werthuswyd.
- **Ffotograffau Cynrychiadol** – mae tri ffotograff cynrychiadol wedi eu cynnwys i ddangos enghreifftiau o gymeriad yr ANT.
 - Dyma brif elfennau *ail dudalen* y Taflenni Data:
- **Crynodeb ar Ffurf Tabl o'r Meysydd Agwedd ar gyfer yr ANT** – mae'r tabl hwn yn rhestru'r Meysydd Agwedd a gofnodwyd o fewn yr ANT ar gyfer pob un o'r pum Agwedd a werthuswyd. Dangosir y cyfeirnod unigryw ar gyfer pob Maes Agwedd ynghyd â'i werthusiad: *Eithriadol uchel, canolig neu isel*. Diffiniwyd y gwerthoedd Agwedd hyn gan fethodoleg LANDMAP Mehefin 2003 fel a ganlyn:
 - *Eithriadol*: o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol
 - *Uchel*: o bwysigrwydd rhanbarthol neu sirol
 - *Canolig*: o bwysigrwydd lleol
 - *Isel*: Ychydig o bwysigrwydd neu heb fod yn bwysig o gwbl
- Ble mae yna fwyaf o werthoedd Eithriadol ar gyfer unrhyw Agwedd, mae'r golofn Agwedd yn cael ei haroleuo er mwyn pwysleisio hyn.
- **Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)** – bwriad y disgrifiadau hyn yw rhoi gwybodaeth i'r darllenydd ynghylch prif briodoleddau tirwedd yr ANT, gan ddiffinio'r hyn sy'n gwneud yr ardal yn arbennig. Disgrifir y nodweddion arbennig hyn mewn telerau cyffredinol yn adran 6.3, isod.
- **Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd** - mae'r rhan hon yn disgrifio tueddiadau yng nghyflwr neu reolaeth y dirwedd sy'n rhoi awgrym ynghylch sut mae'r dirwedd yn newid a pha newidiadau sydd angen sylw trwy reolaeth. Fe fydd graddau'r newid yn y dirwedd yn dod yn fwy amlwg pan fyddant yn edrych eto ar LANDMAP ac yn ei ddiweddarau.
- **Canllawiau Rheoli** – mae'r nodiadau hyn yn rhoi arweiniad ar nodweddion pwysig penodol y dirwedd

neu dueddiadau yn newidiadau'r dirwedd sydd angen rhyw fath o reolaeth ymyrraeth.

6.3 Nodweddion Arbennig Tirwedd y Parc Cenedlaethol

6.3.1 O'r Astudiaeth hon o Gymeriad y Dirwedd, a'r arolwg o ymwelwyr a thrigolion a gynhaliwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystod 2006, roedd yn bosib adnabod 'nodweddion arbennig' tirwedd y Parc Cenedlaethol yn ei synnwyr ehangach. Mae'r nodweddion arbennig hyn yn nodweddion o'r Parc Cenedlaethol sydd, yn unigol a gyda'i gilydd, yn cyfrannu at sicrhau bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn unigryw. Mae'r nodweddion arbennig hyn wedi cael eu pennu gan gyfuniad o ganfyddiadau defnyddwyr o'r Parc Cenedlaethol, ac ategwyd at hyn gan asesiad systematig o gymeriad y dirwedd gan ymgynghorwyr arbenigol ar draws y Parc Cenedlaethol, gan ddefnyddio data gwaelodlin a gafwyd o gymhwyso'r Fethodoleg ar gyfer Asesu'r Dirwedd a esblygwyd yn arbennig i astudio tirwedd Cymru.

6.3.2 Mae'r nodweddion arbennig canlynol wedi cael eu pennu fel testunau penodol:

- **Ysblander Arfordirol**
- **Daeareg Amrywiol**
- **Amrywiaeth y Dirwedd**
- **Cymeriad Nodedig yr Anheddiad**
- **Archaeoleg Gyfoethog**
- **Treftadaeth Ddiwylliannol**
- **Cyfoeth y Cynefinoedd a'r Fioamrywiaeth**
- **Ynysoedd**
- **Mynediad i'r Parc**
- **Lle i Enaid Gael Llonydd**
- **Pellenigrwydd, Llonyddwch a Gwylltineb**
- **Amrywiaeth y Nodweddion Arbennig a'u Cyfuniad**

6.3.3 **Ysblander Arfordirol**: Efallai nad oes syndod, gan mai Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw'r unig Parc Cenedlaethol ym Mhrydain sy'n bennaf arfordirol, fod ysblander ei forlin, gyda'i olygfeydd trawiadol a'i harddwch garw, sydd heb eu difetha, yn cynnig priodwedd olygfaol a gydnabuwyd adeg dynodi'r Parc Cenedlaethol. Mae gan ardal ogleddol y Parc forlin garw gydag ymdeimlad cryf o le a gynhyrchir gan batrwm ailadroddus o glogwyni môr tal - hyd

at 140 metr uwchben lefel y môr ym Mhenrhyn Dinas - pentiroedd blaenllaw, baeau bach gyda thraethau o dywod neu raeau bras, ogofau a staciau craig. Mae yna olygfeydd panoramig aml ar draws Bae Abergwaun i'r de ac i Fae Trefdraeth yn y gogledd. Mae presenoldeb cyson y môr yn treiddio i rannau gorllewinol y Parc, o ran sain a golygfa. Ar draws ehangder Bae Sain Ffraid, mae yna ymwybyddiaeth gyson o'r gwynt a'r môr, a finiogir gan sain y tonnau ar hyd y traethau yn y darn agored hwn o arfordir, yn enwedig pan fydd prifwyntoedd y de-orllewin yn ddigon cryf. Ar arfordir deheuol y Parc mae clogwyni is Penrhyn Angle, sy'n ymdoddi i'r bae tywodlyd ar gefndir o dwyni tywod amlwg yn Freshwater West. I'r dwyrain oddi yma, hwnt am yma rhwng y clogwyni calchfaen serth, gwelir cildraethau cysgodol, staciau craig, bwâu carreg naturiol - fel 'Pont Werdd Cymru' ger Castellmartin - llyncdyllau a chwythdyllau, y cyfan wedi eu crafu allan o wyneb y clogwyni gan symudiadau'r môr.

6.3.4 **Daeareg Amrywiol**: Mae Sir Benfro'n enwog ymhlith daearegwyr am ei daeareg drawiadol, sydd wedi darparu'r dystiolaeth maes ar gyfer deall creigiau'r Cyfnodau Cambriaidd, Ordoficaidd, Silwraidd a Charbonifferaidd mewn amser daearegol. Gellir gweld yr hanes daearegol hir hwn yn nhirwedd Sir Benfro ond y ffordd fwyaf hwylus o'i ddarllen yw ei forlin caregog cymhleth. Oherwydd hyn, mae Arfordir Penfro wedi dod yn un o leoliadau pwysicaf y Deyrnas Unedig ar gyfer gwaith maes daearegol ac mae un arbenigwr wedi cyfeirio ati fel yr ystafell ddisbarth naturiol eithaf ble mae adrannau mawr o stori'r Ddaear yn gallu cael eu datrys wrth ddysgu sgiliau newydd. Mae ardaloedd yr ucheldir yn cynnwys brigiadau folcanig nodedig Carn Llidi a Phentir Tyddewi ac ehangder Mynydd Preseli, gan gynnwys Carn Meini, sy'n enwog fel ffynhonnell y cerrig gleision a ddefnyddiwyd i adeiladu Côr y Cewri. Mae'r copaon tywyll hyn yn cyferbynnu gyda'r calchfaen golau yn y clogwyni a'r staciau ar hyd y morlin deheuol, yn enwedig yn Elegug. Tua'r tir, lluniwyd y dirwedd gan symudiadau ia, ac mae Cwm Gwaun yn geunant dwfn a erydwyd gan ddŵr tawdd rhewlifol. Roedd y codiad yn lefelau'r môr wedi i'r ia doddi ar ddiwedd yr Oes Ia Defensiadaidd wedi toddi sawl dyffryn afon, gan gynhyrchu 'rias' trawiadol, ac aber y Cleddau yw'r enghraifft fwyaf trawiadol, gyda nodweddion llai yn Solfach ac Ystafbwl.

6.3.5 **Amrywiaeth y Dirwedd**: Er gwaethaf y ffaith fod y Parc Cenedlaethol yn ddarn arfordirol o dir sy'n gul yn bennaf, ceir tirwedd hynod o amrywiol o fewn yr ardal. Mae'r dystiolaeth o weithgarwch hir dymor pobl yn eang, gyda rhai

nodweddion yn ddolenni cyffyrddadwy at y ffordd y rheolwyd ac y defnyddiwyd tir yn y gorffennol. Mae perthi traddodiadol yn elfen gyffredin a phwysig iawn o'r dirwedd ac maen nhw'n diffinio ffiniau caeau ac yn cynhyrchu patrwm a gwead nodweddiadol ar y dirwedd gyda choedwigoedd gwasgarog hwnt ac yma mewn rhai ardaloedd. Dominyddir llawer o ardal wledig y Parc Cenedlaethol gan dirwedd tir fferm. O fewn y tir hwn, mae ffurfiau adeiledig traddodiadol yn flaenllaw yn y pentrefi a'r ffermydd, ac yn cyfrannu'n gryf at yr ymdeimlad o le ac, yng ngogledd y Parc Cenedlaethol, yn cyferbynnu'n gryf gyda gweundir agored Mynyddoedd y Preseli.

6.3.6 Cymeriad Nodedig yr Anheddiad: Yn y Parc Cenedlaethol mae yna nifer o aneddiadau sydd â chymeriad cryf, nodedig sy'n cwmpasu ffurfiau adeiledig pensaernïol traddodiadol yn ogystal ag ymagweddau pensaernïol mwy ffurfiol. Mae aneddiadau canoloesol wedi eu cynllunio yn dal i fod yn amlwg ac yn weladwy ym mhentref Angle ac yn Nhrefdraeth, pob un o fewn patrwm cae canoloesol amlwg. Mae gan Ddinbych-y-pysgod hen waliau tref ac mae'n cael ei dominyddu yn ei chraidd gan bensaernïaeth Eorgaidd. Mae llawer o gymeriad y pentrefi a'r pentrefannau yn deillio o'u swyddogaeth: mae gan bentref Solfach ymddangosiad traddodiadol i raddau helaeth, gyda llawer o'i hadeiladau'n adlewyrchu ei swyddogaeth yn y gorffennol fel harbwr diwydiannol a chanolfan bwysig ar gyfer y fasnach galch ar ôl y cyfnod canoloesol. Yn y Parc Cenedlaethol mae yna bron i 1100 o Adeiladau Rhestredig o werth pensaernïol a hanesyddol. Mae yna 14 Ardal Gadwraeth yng nghalon hanesyddol Angle, Caerfarchell, Ynys Bŷr, Little Haven, Maenorbŷr, Trefdraeth a Threfdraeth Parrog, Porthclew, Porthgain, Tyddewi, Saundersfoot, Solfach, Dinbych-y-pysgod a Threfin. Mae'r Ardaloedd Cadwraeth hyn yn darparu brithwaith gyfoethog ac amrywiol ac yn diffinio traddodiadau adeiladu'r Parc Cenedlaethol. Mae Caerfarchell yn enghraifft arbennig o dda o bentrefan ffermio fach ar safle hynafol, sydd heb newid llawer er gwaethaf y newidiadau sylweddol a phellgyrhaeddol mewn amaethyddiaeth a welwyd dros y 50 mlynedd diwethaf. Mewn mannau eraill yn y Parc Cenedlaethol, mae erydiad graddol cymeriad arbennig yr aneddiadau a'r adeiladau trwy ddatblygiadau anaddas neu ansympathetig yn ystod y 1960au a'r 1970au, wedi rhoi mwy o bwysigrwydd eto i'r Adeiladau Rhestredig a'r Ardaloedd Cadwraeth hyn.

6.3.7 Archaeoleg Gyfoethog: Mae pobl wedi byw yn Sir Benfro ers miloedd o flynyddoedd, gan ddefnyddio ei hadnoddau a llunio'r dirwedd. Mae tystiolaeth o'r anheddiad a'r ecploetiaeth yma wedi goroesi mewn cyfoeth o safleoedd hanesyddol ac archeolegol sydd o bwysigrwydd rhyngwladol a chenedlaethol. Mae'r safleoedd hyn yn adlewyrchu'r patrwm anheddiad hynafol, llwybrau masnach, etifeddiaeth eglwysig Cristnogaeth gynnar a man geni Dewi Sant, nawdd sant Cymru, pwysigrwydd strategol gosodiadau amddiffyn yn Sir Benfro, a chreiriau diwydiannol fel yr odynau calch yn Kiln Park ac yn Solfach. Ceir caer drawiadol o'r Oes Haearn ar gopa Mynydd Carningli, ac oddi yma mae yna systemau cae o gynhanes yn ymestyn allan, a thystiolaeth o aneddiadau, safleoedd defodol a meini hirion, sy'n dangos y gweithgarwch o'r oes Neolithig i'r Oes Haearn. Mae'r arfordir rhwng Abereiddi a Phorthgain, yn rhan ogleddol y Parc Cenedlaethol, yn daith drwy hanes diwydiannol; yn ogystal â'r 'Lagŵn Glas' eiconig yn Abereiddi a'r hopranau ym Mhorthgain, yma, gwelir y chwarelau cerrig, bythynnod y gweithwyr, tŷ'r rheolwr, tramffyrdd a glanfeydd, sydd oll yn cyfrannu at stori'r dirwedd archeolegol. I'r de, mae'r cyfoeth o safleoedd hanesyddol ac archeolegol yn parhau. Mae adeiladau canoloesol Palas yr Esgob yn Llandyfái, y tŷ amffosog yn Hodgston, a thirwedd faenorol Maenorbŷr sydd wedi ei chadw'n dda, gyda'i chastell, eglwys a cholomendy, yn enghreifftiau nodedig.

6.3.8 Treftadaeth Ddiwylliannol: Mae cyfoeth yr archaeoleg wedi arwain at dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ac amrywiol o fewn y Parc Cenedlaethol. Cyn y Goncwest Normanaidd, roedd yr ardal gyfan yn siarad Cymraeg ac yn cael ei rheoli gan bennaethiaid Celtaidd. Yn ystod 'Oes y Saint', roedd y sir yn gartref i nifer o ffigurau Cristnogol cynnar pwysig, a'r mwyaf nodedig oedd Dewi Sant, sydd bellach yn nawdd sant Cymru. Yn dilyn ei farwolaeth, roedd ei gysegrfa yn denu pererinion o bob rhan o'r byd ac erbyn hyn saif Eglwys Gadeiriol Tyddewi ar safle ei gysegrfa. Fe greodd y Goncwest Normanaidd rhaniad ar draws y sir sy'n dal i fodoli heddiw. Gyrrwyd y siaradwyr Cymraeg brodorol i ardaloedd mwy gwyllt y gogledd tra bod anheddwyr o Fflandrys a Wessex wedi ailboblogi'r de. O hyn ymlaen, cyfeiriwyd at dde Sir Benfro fel 'Lloegr Fach' neu 'Little England' tra daeth gogledd mwy gwledig y sir i fod yn gadarnle i'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Erbyn heddiw, mae safleoedd ac adeiladu hanesyddol yn dal i ddylanwadu ar ddiwylliant Sir Benfro. Castell Maenorbŷr yw man geni'r croniclydd canoloesol, Gerallt Gymro. Mae

dylanwadau diwylliannol yr ynysoedd oddi ar y lan a dyfrffordd Aberdaugleddau, yn ogystal â Llwybr Cenedlaethol Llwybr Arfordir Sir Benfro, oll wedi helpu creu ymdeimlad o le ac wedi cyflwyno dimensiwn diwylliannol i hanes Sir Benfro.

6.3.9 Cyfoeth y Cynefinoedd a'r Fioamrywiaeth: Mae'r hinsawdd, y ddaear a defnydd tir wedi cyfuno i greu cyfoeth o gynefinoedd pwysig, a rhywogaethau cysylltiedig, yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r bywyd gwyllt toreithiog - a'r gallu i fynd yn agos ato - yn un o atyniadau mawr y Parc Cenedlaethol, ac yn un sy'n newid gyda'r tymhorau, gan gyflwyno manteision o ran lles ffisegol, economaidd ac ysbrydol. Mae Morlin Sir Benfro'n arbennig yng Nghymru, oherwydd ei amrywiaeth a'i fywyd gwyllt toreithiog, a adlewyrchir yn y nifer uchel o safleoedd sydd wedi eu dynodi'n genedlaethol gan roi amddiffyniad iddynt. Mae ardaloedd noeth o glogwyni, pentiroedd, godiroedd a glaswelltir y twyni yn cynnal rhai o'r cynefinoedd gorau a welir yn y Deyrnas Unedig. Mae dyfroedd arfordirol yr ardal hefyd yn lleoliadau gwerthfawr i rywogaethau adar y môr sy'n mudo yma dros y Gaeaf. Mae dwyrain a gorllewin y Cleddau a'r Afon Teifi yn cynnal poblogaethau o rywogaethau pysgod sy'n cael eu gwarchod dan gyfraith Ewrop (gan gynnwys Eog yr Iwerydd, Lamprai'r Nant, y Môr a'r Afon, y Wangen, yr Herlyn a Bawd y Melinydd). Mae dyfrgwn, mursennod a gweision y neidr ac adar fel Glas y Dorlan sydd wedi eu hamddiffyn, yn bresennol. Mae'r cymunedau o blanhigion glaswelltir sy'n blodeuo ar gopa'r clogwyni yn y gwanwyn ac yn gynnar yn yr haf yn creu argraff sy'n aros yng nghof cerddwyr sy'n troedio'r Llwybr Cenedlaethol. Tua'r tir, mae yna gynefinoedd gweundir a rhostir agored ar dir uchel Mynydd Preseli a Mynydd Carningli ac wedi eu gwasgaru ar draws y tir comin eang ac isel i'r gogledd a'r gorllewin o Dyddewi. Mae coetiroedd derw helaeth Cwm Gwaun, Cwm Nyfer a rhannau uchaf aber y Daugleddau yn gyferbyniaeth nodedig, ac mae eu hinsawdd gefnforol fwyn a'u lleoliadau cysgodol yn well i ddatblygiad cymunedau cyfoethog o gennau, rhedyn, mwsogl a blodau coetir nodweddiadol, ac yn darparu cynefin ar gyfer y pathew.

6.3.10 Ynysoedd: Mae golygfa'r ynysoedd oddi ar y lan ar hyd Arfordir Penfro yn cyfrannu'n gryf at y r ymdeimlad o le. Mae eu diffyg hygyrchedd hefyd yn cyfrannu at y synnwyr o bellnigrwydd, er, efallai, nad ydynt yn bell iawn o'r prif dir. Mae mwyafrif yr ynysoedd yn ardaloedd arfordirol gwyllt hynod o ddeniadol, heb eu tarfu bron, ac maen nhw'n gyfoeth o fywyd gwyllt. Mae'r ynysoedd hyn yn gartref i

amrywiaeth eang o adar y môr a hefyd y frân goesgoch a'r hebog tramor, ac maen nhw hefyd yn gartref i gytreffi o forloi llwyd sy'n bridio arnynt. Mae gan ynysoedd Sgomer a Sgogwm, sydd oddi ar y lan, gymunedau o adar y môr sy'n bwysig yn rhyngwladol ac maen nhw wedi eu hamgylchynu gan un o ddwy Warchodfa Natur Forol ddynodedig yn unig oddi ar arfordir Cymru. Mae Sgomer hefyd yn gartref i lygoden ddŵr unigryw Sgomer - math o lygoden goch. Mae gan yr ynysoedd hanes hir o anheddiad dynol, peth ohono'n dyddio o tua 5,000 o flynyddoedd yn ôl. Oherwydd y carneddau o'r Oes efydd a'r systemau cau o'r Oes Haearn, mae Ynysoedd Dewi a Sgomer yn llefydd trawiadol. Ynys Bŷr yw'r ynys sydd wedi ei thrin fwyaf ac mae ganddi boblogaeth leol, sy'n cynnwys abaty Sistersaidd sy'n parhau â phresenoldeb Cristnogol a fu yma ers dros 1,000 o flynyddoedd. Mae yna synnwyr o heddwch a lonyddwch ar Ynys Bŷr, er gwaethaf y nifer fawr o ymwelwyr sy'n dod yma am y dydd yn ystod y tymor gwyliau.

6.3.11 Mynediad i'r Parc: Mae tirwedd y Parc Cenedlaethol hyd yn oed yn fwy arbennig yn llygaid llawer o ymwelwyr a thrigolion am ei fod mor hawdd ei chyrraedd. Mae Llwybr Cenedlaethol Llwybr Arfordir Sir Benfro yn ymestyn am 186 milltir (229km) ar hyd rhai o olygfeydd arfordirol mwyaf trawiadol Prydain. Dyma lwybr pellter hir cyntaf Cymru ac fe'i agorwyd yn 1970, ac mae 85% o'r llwybr yn y Parc Cenedlaethol. Tua'r tir, mae yna dros 500 milltir (800km) o hawliau tramwy cyhoeddus; mae llwybrau beicio hefyd yn pasio trwy'r Parc. Mae dolenni cyswllt at y llwybrau hyn y haws diolch i'r system fysiau arfordirol leol, sy'n galluogi cerddwyr i gerdded Llwybr yr Arfordir i un cyfeiriad a dychwelyd ar y bws.

6.3.12 Lle i Enaid Gael Llonydd: Er bod y gwyntoedd gorllewinol yn gallu bod yn gryf iawn, maen nhw'n dod ag aer ffres, glân. Mae hyn, law yn llaw gyda'r dŵr arfordirol glân a'r amgylchedd glân, yn nodweddion arbennig o'r Parc Cenedlaethol sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn gan drigolion ac ymwelwyr. Mae'r ardaloedd cymharol annatblygedig yn y Parc, a'r mynediad hwylus atynt, yn cynnig sawl synnwyr o londer a rhyddid, neu eiliadau i fyfyrion dawel neu fwynhau'r golygfeydd gwefreiddiol. Mae hyn yn bosib er nad ydyw'r anheddiad agosaf ymhell iawn i ffwrdd.

6.3.13 Pellenigrwydd, Llonyddwch a Gwylltineb: Gellir profi'r teimladau hyn mewn tirweddau hynod o gyferbyniol yn

y Parc Cenedlaethol. Mae cymeriad cymharol agored ucheldir uchel cadwynau Mynydd y Preseli a Mynydd Carningli, law yn llaw gyda'r diffyg cysgod, yn cynnig ymdeimlad agored cryf ymhlith copaon y brynau hyn ac ar eu llethrau. Maen nhw'n cynnig synnwyr o ofod ac unigrwydd, gyda chyfle i fyfyrion a chael llonydd i ffwrdd oddi wrth brysurdeb bywyd bob dydd. Er na cheir llawer o enghreifftiau o'r ymdeimlad yma o ddinoethder uchel yn unrhyw le arall yn y Parc Cenedlaethol, gellir ei brofi ym Mhen Caer ac ym Mhenrhyn Cemaes. Mewn cyferbyniaeth, mae yna ardaloedd yn y Parc Cenedlaethol ble mae'r ymdeimlad o lonyddwch a heddwch yn deillio o gyneffindra ac agosatrwydd y dirwedd. Mae Cwm Gwaun, gyda'i synnwyr treiddiol o gysgod sy'n deillio o'r tiffurf cwm caeedig, coetir helaeth a rhwydwaith dwys o berthi, yn cynnig ymdeimlad o lonyddwch ac unigedd o fewn ardal gymharol fechan, ac mae cwm Solfach yn creu'r un ymdeimlad. Ceir yr un math o deimladau yn rhannau agored ac ynysig y twyni tywod a'r traeth tywodlyd yn Freshwater West, a nodwedd gref o'r ardaloedd hyn yw'r twyni tonnog sy'n agored i'r gwynt a sain hollbresennol y môr, gyda diffyg anheddiad dynol. Mewn cyferbyniaeth lwy'r i'r darn gwyllt hwn o dirwedd arfordirol ceir rhannau cysgodol uchaf aber y Daugleddau. Yma, mae yna synnwyr helaeth o lonyddwch sy'n deillio o'r seiniau a'r golygfeydd o gilddwr afon gaeedig dawel sy'n cael eu chwyddo gan y tiffurf sy'n codi o amgylch, y coetir dwys a'r clystyrau o goed. Rhan o'r gwerthfawrogiad annwyl o dirwedd y Parc Cenedlaethol yw'r gallu i amsugno'r llonyddwch a'r tawelwch yn ystod y dydd, ond hefyd awyr mawr y nos a disgleirdeb y sêr mewn awyr dywyll ar noson glir. Yn llawer o'r Parc Cenedlaethol nid oes llawer o lygredd golau yn y nos. Ar hyd y morlin, yr ynysoedd, ymyl gogleddol penrhyn Tyddewi a Freshwater West, yn benodol, nid oes fawr ddim llygredd golau yn y nos. Mae'r ardaloedd hynny sydd â llygredd golau sylweddol yn y nos wedi eu cyfyngu at brif aneddiadau Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot a Thyddewi, a cheir lefelau cymedrol o lygredd golau ar lethrau deheuol Mynyddoedd y Preseli a chefnfro Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot.

6.3.14 Amrywiaeth y Nodweddion Arbennig a'u Cyfuniad: Nid dim ond y nodweddion arbennig unigol hyn sy'n gwneud y Parc Cenedlaethol yn lle arbennig; mae cyfuniad y nodweddion arbennig hyn, ynghyd â'u hamrywiaeth a'u dosbarthiad o fewn ardal ddaearyddol gymharol fechan, yn helpu creu cymeriad unigryw'r Parc. Mae seiniau a golygfeydd ailadroddus y môr, a welir ar hyd y tirweddau

arfordirol agored a thonnog a'r cymoedd coediog caeedig, neu o gribynau a llwyfandiroedd ucheldir y brynau mewndirol, yn creu cyfuniad nodedig o liw, gwedd, cyferbyniaeth ac amrywiaeth o fewn ychydig filltiroedd. Mae'r cyfuniad hwn yn cynnig amrywiaeth o brofiadau a thirwedd sy'n brin. Nid dim ond bodolaeth y nodweddion arbennig hyn, ond hefyd y canfyddiad ynghylch eu natur barhaol - ac y bydd yr amddiffyniad a geir gan ddynodiad Parc Cenedlaethol yn rhoi sicrwydd i'r natur barhaol hon.

6.4 Newid Mewn Hinsawdd a Chymeriad y Dirwedd

“Newid Mewn Hinsawdd yw'r broblem fwyaf difrifol yr ydym yn ei hwynebu heddiw, ac mae'n fwy difrifol, hyd yn oed, na bygythiad terfysgaeth”

Yr Athro Syr David King, Prif Wyddonydd y Llywodraeth, 2004

6.4.1 Mae consensws gwyddonol bod cyflymder newid yn yr hinsawdd i'w briodoli i raddau helaeth i weithgaredd dynol ac mae risg sylweddol oni bai bod camau cyflym yn cael eu cymryd, bydd cynhesu byd-eang yn cyrraedd lefelau a fydd yn achosi effeithiau trychinebus. Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd ac ymrwymodd i leihau allyriadau carbon i sero-net erbyn 2050.

Mae Rhagamcanion Hinsawdd y DU (2018) yn dangos bod y degawd diweddaraf (2009-2018) oddeutu 1°C yn gynhesach na'r cyfnod cyn-ddiwydiannol. Mae'r deg mlynedd gynhesaf yn y DU yn y gyfres o 1884 i gyd wedi digwydd er 2002 gyda'r degawd diweddaraf hefyd 1% yn wlypach na 1981-2010. Bydd y newidiadau hyn mewn tymheredd, mwy o lifogydd a sychder ynghyd â lefelau'r môr yn codi yn cael effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau, coedwigaeth, amaethyddiaeth, priddoedd a storfeydd carbon naturiol. Mae newid hinsawdd yng Nghymru yn debygol o gael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol sylweddol ar gymeriad y dirwedd, hynodrwydd lleol ac ansawdd.

Mae Adroddiad Tystiolaeth Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd 2017: Crynodeb ar gyfer Cymru yn nodi y bydd

risgiau a chyfleoedd yn sgil newidiadau yng nghymeriad y dirwedd fel a ganlyn:

'Mae cymeriad tirwedd wedi newid yng Nghymru yn ystod yr ychydig ddegawdau diwethaf. Bu newid yn yr hinsawdd yn ffactor cyfrannol, yn uniongyrchol trwy ei effeithiau ar orchudd tir ac yn anuniongyrchol trwy ddylanwadu ar rai defnyddiau tir dros eraill mewn mannau penodol. Yn ddiamau, bydd newidiadau i orchudd tir a defnydd tir yn dal i ddigwydd yn y dyfodol a bydd maint newid yn yr hinsawdd (ac ymatebion iddo) yn ffactor allweddol a fydd yn dylanwadu ar y newid hwn. Nid yn unig mae coetiroedd a gwrychoedd hynafol yn ecosystemau pwysig, maent hefyd yn asedau hanesyddol sy'n cynnwys tystiolaeth o ddefnydd dynol yn y gorffennol. Fe allai effeithiau newid yn yr hinsawdd ar goedwigaeth, coetiroedd hynafol a gwrychoedd fod yn raddol ond arwyddocaol. Gallai erydu pridd, newid defnydd tir ac ailblannu i gyd ddifrodi asedau hanesyddol unigol'.

Rhagwelir stormydd mwy aml, codiad yn lefelau'r môr a mwy o berygl o lifogydd ar yr arfordir ac mewn afonydd, o ganlyniad, a rhagwelir y bydd difrifoldeb yr achosion hyn yn gyfrannol i'r cynnydd mewn lefelau tymheredd cymedrig ar draws y byd. Ar gyfer tirwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mae posibilrwydd yr effeithiau uniongyrchol yn real iawn.

Mae llawer o forlin y Parc Cenedlaethol yn agored iawn i brifwyntoedd y de orllewin. Yn ffodus, mae llawer o'r morlin hwn yn cynnwys clogwyni a ffurfiwyd o rai o'r creigiau hynaf a caletaf ym Mhrydain, ac maen nhw'n gallu gwrthsefyll hyd yn oed symudiadau mwyaf difrifol y tonnau, yn naturiol. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, mae'r draethlin yn isel ac o'i blaen mae yna draethau o dywod neu raean bras gyda chefnid o dwyni tywod, sy'n hynod o agored i stormydd egniol pan fydd yna lanw uchel hefyd. Ar adegau, mae difrod storm yn Niwrgwl eisoes wedi achosi i rannau o'r traeth o raean bras gael eu golchi tua'r tir a dros heol yr arfordir. Efallai na fydd cynnal yr heol yn y lleoliad presennol ac yn y cyflwr presennol, yn waith y gellir ei rheoli'n gynaliadwy yn y tymor canolig i hir. Yn Freshwater West, mae'r tywod sy'n cael ei chwythu'n casglu'n aml ar heol yr arfordir, ac fe allai'r twyni sefydlog ar hyd cefn y traeth ddiodeff difrod a dod yn ansefydlog petai stormydd difrifol a llanw uchel yn cyfuno'n

fwy aml. Mae'r cysyniad o 'enciliad wedi'i rheoli' ar arfordiroedd isel yn cael ei weithredu yn nwyrain Lloegr, ac efallai y bydd yn rhaid ystyried triniaeth o'r fath ar gyfer rhannau o arfordir Cymru.

Tua'r tir, yn aml mae'r dirwedd yn dal i fod yn agored iawn i'r prifwyntoedd o'r môr. Wrth reoli amaethyddiaeth, yr ymateb hanesyddol i ddarparu ffiniau cae cadarn yn yr ardaloedd arfordirol wedi'u ffermio oedd adeiladu'r banciau perthi traddodiadol, a'u cadw mewn cyflwr da, ac mae'r rhain bellach yn elfen eang a hynod o nodweddiadol o lawer o dirwedd y Parc Cenedlaethol. Mae'r elfennau hyn wedi darparu cysgod effeithiol iawn i dda byw mewn caeau agored. Mae'r newidiadau diweddar yn economeg amaethyddiaeth, a'r anhawster dilynol i gynnal y nodweddion hyn mewn ffordd gost-effeithiol, wedi arwain at erydiad yr hen dirwedd wedi'i ffermio mewn rhai ardaloedd o'r Parc, gan osod ffensys weiar a phostion yn lle rhai o'r perthi mewn ffordd systematig. Mae gwarchod banciau perthi traddodiadol, a'u cadw a'u cynnal yn rheolaidd mewn ffordd addas, yn thema ailadroddus yn y canllawiau rheoli a osodwyd yn Astudiaeth yr ACT. Fe fyddai'r syniad o wyntoedd cryfach a stormydd mwy aml yn ystod rhan helaethach o'r flwyddyn, yn ysgogiad pwerus ar gyfer adfer banciau perthi traddodiadol, a'u rheoli, naill ai i ddarparu mwy o gysgod ar gyfer da byw mewn ardaloedd bugeiliol, neu i wrthsefyll erydiad priddoedd sych mewn ardaloedd â'r, neu i gynnal dŵr ffo o arwyneb y tir yn ystod llifogydd storm a'i sianelu.

6.4.2 Ar rannau ucheldir mawr Mynydd Preseli a Mynydd Carningli, fe fyddai'r posibilrwydd o gael sychder yn fwy rheolaidd a thymhereddau uchel yn yr haf yn cynyddu'r perygl o danau rhostir. Fe fyddai tanau o'r fath yn niweidiol iawn petaent yn cynnal yr ardaloedd helaeth o blanhigfeydd conifferaidd sy'n addurno rhai o lethrau uchaf rhannau o'r gadwyn drawiadol hon o fryniau. Mae rhostir wedi addasu i wrthsefyll tân; nid yw hyn yn wir am blanhigfeydd conifferaidd. Felly, fe allai'r bygythiad hinsoddol hwn fod yn gymhellant cryf i gwympto a chlirio planhigfeydd sydd eisoes yn bodoli ar ddiwedd eu cylchdroad dros y tymor byr i ganolig, ac i

ddychwelyd at yr hen reolaeth rhostir agored gynt. Efallai y byddai hyn hefyd yn anghymhelliad pwerus ar gyfer plannu coetiroedd pellach. Ond, fe allai profiad o dyfiant cyflymedig sbriws Sitka ym Mhantmaenog yn y ddegawd ddiwethaf gynyddu'r pwysau ar gyfer plannu.

6.4.3 Ni fyddai cyflymder newid mewn hinsawdd, hyd yn oed ar y gyfradd gyflymaf a ragwelir, yn debygol o gyflwyno newidiadau cyfanwerthol yng nghymeriad y dirwedd yn y Parc Cenedlaethol yn y tymor byr; ond yn y tymor hirach efallai mai ardaloedd o'r arfordir, fel yn Niwrgwl, ar hyd rhannau o Fae Sain Ffraid, Freshwater West, Y Porth Mawr ac Ystafbwl, fyddai'r mwyaf bregus. Serch hynny, argymhellir bod Cymeriad Tirwedd y Parc Cenedlaethol yn cael ei adolygu bob 10 mlynedd er mwyn sicrhau bod prif nodweddion unrhyw Ardal Nodwedd Tir yn cael eu cofnodi'n gywir a bod y tueddiadau yn rheolaeth y dirwedd - a'r ymddangosiad sy'n ganlyniad - yn cael eu dogfennu'n gywir, fel y gellir bwydo polisïau defnydd tir a rheoli tir yn y dyfodol, yn llawn.

Adroddiad CNC Rhif 314. Mae LANDMAP, Tirwedd a Hinsawdd sy'n Newid yn darparu gwybodaeth am newidiadau posibl i wahanol fathau o gymeriadau tirwedd.



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

7. ARDALOEDD NODWEDD TIR

TAFLENNI DATA